Senedd Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Cysylltiadau Rhyngwladol
## Adroddiad Blynyddol 2024

Mawrth 2025




senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDiwylliant@senedd.wales**
X: **@SeneddDiwyllCRh**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Cysylltiadau Rhyngwladol

## Adroddiad Blynyddol 2024

Mawrth 2025

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Delyth Jewell AS**
Plaid Cymru



**Mick Antoniw AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Gareth Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Heledd Fychan AS**
Plaid Cymru



**Lee Waters AS**
Llafur Cymru

---

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o’r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Laura Anne Jones AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Hefin David AS**
Llafur Cymru



**Tom Giffard AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru



**Carolyn Thomas AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .......... **5**

**Casgliadau ac argymhellion** .......... **6**

**1. Rôl a chyfrifoldebau** .......... **8**

Llywodraeth Cymru .......... 9

**2. Gwella tryloywder** .......... **11**

**3. Y gyllideb** .......... **13**

**4. Strategaeth Ryngwladol** .......... **15**

Adnewyddu'r Strategaeth Ryngwladol .......... 16

Cynllun Cyflawni Strategaeth Ryngwladol newydd .......... 16

Rhwydwaith swyddfeydd tramor .......... 19

Y Rhaglen Lywodraethu .......... 20

**5. Cysylltiadau sy'n cael blaenoriaeth** .......... **22**

Cytundebau dwyochrog .......... 22

Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon .......... 24

Cysylltiadau rhwng Cymru a'r Undeb Ewropeaidd .......... 25

**6. Ymweliadau tramor ac ymwelwyr** .......... **28**

Dull gweithredu Llywodraeth yr Alban .......... 29

**7. Deddfwriaeth** .......... **31**

Cydsyniad Deddfwriaethol .......... 31

Bil Data (Defnydd a Mynediad) .......... 31

Cytuniadau rhyngwladol .......... 31

Confensiwn UNESCO ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol .......... 32

Diwygiadau i'r Cytundeb sy'n Sefydlu Cronfa Datblygu Affrica .......... 33

**8. Gwaith yn y dyfodol ........................................ 34**

**Atodiad 1 Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar. ........................................ 35**

# Rhagair y Cadeirydd

Mae gan ein cenedl hanes hir o gysylltiad â phobloedd eraill a lleoedd eraill.

Mae ein daearyddiaeth, fel y mae, wedi'n lleoli ar gyrion cyfandir, yn mynnu ein bod yn cofleidio'r cysylltiadau hyn, ond gochelwn rhag y perygl o'u cymryd yn ganiataol. Gwelodd yr awdur Jan Morris ein harfordir hir fel "drws agored i'r byd" - byd o ddiwylliannau, artistiaid, ieithoedd a phosibiliadau eraill.

Mae'r adroddiad hwn yn dogfennu blwyddyn arall o waith ein pwyllgor ar gysylltiadau rhyngwladol: blwyddyn lle rydym wedi peintio'r darlun cyntaf o effeithiau Brexit ar ein sector diwylliant, ac wedi ymweld â Brwsel a Dulyn i barhau i gydweithio â'n partneriaid a'n cymdogion agosaf.

Gartref, rydym wedi gwneud pob ymdrech i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif o ran ei blaenoriaethau rhyngwladol. Rydym wedi parhau i gyhoeddi argymhellion ar yr hyn yw, o bosibl, un o'i dyletswyddau mwyaf canlyniadol - cyflwyno Cymru i'r byd, ac rydym yn gwneud hynny eto yn yr adroddiad hwn.

Wrth i ni gyrraedd cyfnod olaf y Senedd hon, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i achub ar y cyfle hwn i daflu goleuni ar ei hymdrechion, i godi ein proffil yn rhyngwladol ac i sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

Gochelwn rhag hunanfodlonrwydd - dim ond yn y bryniau rydym, wedi'r cyfan, ac mae gennym eto fynyddoedd i'w dringo. Wrth i ni gyhoeddi'r adroddiad hwn, rydym yn barod i ddechrau ein hymchwiliad newydd ar ddyfodol strategaeth cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru.

Bydd ein ffocws, fel bob amser, yn dechrau ac yn gorffen gyda Chymru: fel pwyllgor, byddwn bob amser yn ymdrechu i edrych ar y cyfraniad cadarnhaol y mae Cymru yn ei wneud i'n byd sy'n newid yn barhaus. Oherwydd trwy edrych ar yr hyn a wnawn mewn mannau eraill, mae cymaint y gallwn ei ddysgu amdanom ein hunain (fel y dywed Joyce yn Ulysses, "Y ffordd hiraf o amgylch yw'r ffordd fyrraf adref"). Fel pwyllgor, byddwn yn parhau i fod yn gadarn wrth hyrwyddo'r ewyllys da, yr angerdd a'r brwdfrydedd sy'n sail i gynifer o gysylltiadau rhyngwladol Cymru – i sicrhau na chollir y cysylltiadau hynny, ac na chânt eu gadael i hap.



**Delyth Jewell AS**
Cadeirydd y Pwyllgor

# Casgliadau ac argymhellion

**Casgliad 1.** Rydym yn nodi newid dull Llywodraeth Cymru o ran adnewyddu'r Strategaeth Ryngwladol a bod yr ymrwymiadau a wnaed i'r Pwyllgor hwn ynghylch ei chynnwys wedi eu treiglo'n ôl. ........ Tudalen 18

**Casgliad 2.** Rydym yn siomedig nad yw Cynllun Cyflawni newydd y Strategaeth Ryngwladol wedi cael ei wireddu. Mae'n bwysig, o ystyried ein bod ni dri mis i mewn i 2025 erbyn hyn, ei fod yn cael ei ddarparu'n gyflym i'r Pwyllgor hwn, rhanddeiliaid a phartïon eraill â diddordeb. ........ Tudalen 18

**Casgliad 3.** Rydym yn croesawu cynnig y Prif Weinidog i roi papur briffio technegol i'r Pwyllgor hwn ar y Cynllun Cyflawni cyn ei gyhoeddi. ........ Tudalen 18

**Casgliad 4.** Rydym yn croesawu'r blaenoriaethau a ddarparwyd gan y Prif Weinidog ar gyfer yr adolygiad gweithredu sydd ar ddod o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, ond rydym yn parhau i fod yn siomedig nad yw Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu strategaeth benodol ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd sy'n amlinellu ei blaenoriaethau cyffredinol ar gyfer cysylltiadau â'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys ar gyfer ailosod y berthynas rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. ........ Tudalen 27

**Casgliad 5.** Byddwn yn parhau i graffu ar Lywodraeth Cymru ar ddatblygu a chyflawni ei blaenoriaethau o ran yr Undeb Ewropeaidd yn ystod y flwyddyn dyngedfennol hon o ran cysylltiadau rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. ........ Tudalen 27

**Casgliad 6.** Rydym yn nodi'r dull gwahanol a ddefnyddir gan Lywodraeth yr Alban i gyhoeddi costau ymweliadau tramor sy'n cyhoeddi manylion yr holl deithiau tramor gan Weinidogion dri mis yn ddiweddarach bob chwarter. ........ Tudalen 30

**Argymhelliad 1.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu a restrir yn y Strategaeth Ryngwladol a'i chynlluniau gweithredu, yn unol â'r ymrwymiad a wnaed gan y Prif Weinidog yn ystod tystiolaeth i'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ym mis Rhagfyr 2024. ........ Tudalen 18

**Argymhelliad 2.** Y tu hwnt i Gynllun Cyflawni'r Strategaeth Ryngwladol, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn datblygu mecanweithiau i fonitro'r broses o gyflawni ei blaenoriaethau'n barhaus. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i

gynnwys, mewn adroddiadau blynyddol a ddarperir i'r Pwyllgor hwn a Phwyllgorau'r dyfodol, ddiweddariadau ar gynnydd i gyflawni blaenoriaethau a chamau gweithredu penodol a restrir yn ei strategaethau. ................................ Tudalen 20

**Argymhelliad 3.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu rhestr o ddulliau mae'n eu defnyddio i adrodd ar ganlyniadau, yng ngoleuni datganiad y Prif Weinidog, mai dim ond "un o'r dulliau" a ddefnyddir yw ei hadroddiadau blynyddol. ................................ Tudalen 20

**Argymhelliad 4.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro'r rhesymeg dros newid enw ei hadroddiadau rhwydwaith tramor blynyddol i 'adroddiadau blynyddol cysylltiadau rhyngwladol' a pha oblygiadau, os o gwbl, sydd gan hyn o ran yr hyn sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiadau. ................................ Tudalen 20

**Argymhelliad 5.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i restru'r holl gytundebau dwyochrog rhyngwladol ar ei thudalen we bwrpasol. ................................ Tudalen 24

**Argymhelliad 6.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi gwybod i'r Pwyllgor hwn yn rhagweithiol pan fydd cytundebau dwyochrog rhyngwladol newydd yn cael eu llofnodi. ................................ Tudalen 24

**Argymhelliad 7.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â gweithredu Confensiwn UNESCO ar Ddiogelu'r Dreftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol, gan gynnwys ei blaenoriaethau ar gyfer cydnabod a gwarchod traddodiadau Cymreig, ac ar drafodaethau rhynglywodraethol. ................................ Tudalen 33

**Argymhelliad 8.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gadarnhau a yw wedi ailedrych ar fater dynodi Dydd Gŵyl Dewi yn Ŵyl y Banc yng Nghymru gyda Llywodraeth newydd y Deyrnas Unedig, a'i hymateb. ................................ Tudalen 33

# 1. Rôl a chyfrifoldebau

**1.** Mae'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol ("y Pwyllgor") yn gyfrifol am graffu ar y ffordd mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â chysylltiadau rhyngwladol, gan gynnwys cyflawni ei Strategaeth Ryngwladol[1], a'i chynlluniau gweithredu cysylltiedig.[2]

**2.** Mae'r Pwyllgor yn arbennig o awyddus i sicrhau nad yw proffil byd-eang Cymru yn mynd yn llai yn sgil newidiadau yn ein perthynas â'r Undeb Ewropeaidd. Rydym hefyd yn awyddus i barhau i fod yn ymwybodol o sut mae gwaith Llywodraeth Cymru ym maes cysylltiadau rhyngwladol yn gorgyffwrdd â meysydd eraill yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor ac yn effeithio arnynt.

**3.** Yn 2023, fe wnaethom gytuno[3] i ddechrau cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar gysylltiadau rhyngwladol i roi trosolwg o'n gwaith a chrynhoi themâu allweddol mewn un lle. Mae ein hadroddiad cyntaf yn grynodeb o'n gweithgareddau.

**4.** Mae'r Pwyllgor yn ystyried y materion a ganlyn yn rheolaidd:

- Y Gyllideb;
- Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran cysylltiadau rhyngwladol;
- Gweithredu'r Strategaeth Ryngwladol, gan gynnwys gweithgareddau swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru;
- Ymweliadau tramor ac ymwelwyr, a
- Deddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys deddfwriaeth yn ymwneud â rhwymedigaethau rhyngwladol.

**5.** Mae'r Pwyllgor wedi cynnal ymchwiliadau rhagweithiol, gan gynnwys ar y canlynol:

- Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon[4] (cwblhawyd);
- Diwylliant a'r berthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd[5] (cwblhawyd);

[1] Llywodraeth Cymru: Strategaeth ryngwladol i Gymru – 14 Ionawr 2020
[2] Llywodraeth Cymru: Cynlluniau gweithredu rhyngwladol – 14 Rhagfyr 2020
[3] Cyfarfod pwyllgor: 25 Mai 2023
[4] Ymchwiliad Pwyllgor: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon
[5] Ymchwiliad Pwyllgor: Diwylliant a'r berthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd

- Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru[6] (ar y gweill); ac
- Adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd (ar y gweill)[7].

**6.** Mae'r Cadeirydd yn cynrychioli'r Pwyllgor mewn cyfarfodydd perthnasol a gynhelir yn y Senedd ac mewn cyfarfodydd diplomyddol gyda llysgenhadon a phwysigion sy'n ymweld.

**7.** Mae aelodau'r Pwyllgor hefyd yn cynrychioli'r Senedd mewn nifer o gyrff seneddol perthnasol, gan gynnwys Cynulliad Partneriaeth Seneddol y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, Pwyllgor Rhanbarthau'r Undeb Ewropeaidd-Grŵp Cyswllt y Deyrnas Unedig, Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, a Chynulliad Seneddol Prydain-Iwerddon.

**8.** Nid y ni yw'r unig bwyllgor yn y Senedd sy'n trafod materion rhyngwladol. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ac eraill i sicrhau bod materion rhyngwladol yn cael eu trafod a bod gwaith craffu yn cael ei gynnal ar ddull gweithredu Llywodraeth Cymru.

## Llywodraeth Cymru

**9.** Ers ein hadroddiad diwethaf, bu newidiadau Gweinidogol sylweddol. Mae'r cyfrifoldeb am faterion rhyngwladol yn perthyn i wahanol bortffolios Llywodraeth Cymru.

**10.** Symudodd cysylltiadau rhyngwladol i bortffolio'r Prif Weinidog yn 2021 ar ôl penderfyniad i beidio ag ailbenodi gweinidog cysylltiadau rhyngwladol i'r Cabinet (swydd y bu'r Prif Weinidog presennol yn ei chyflawni rhwng mis Rhagfyr 2018 a mis Hydref 2020)[8]. Mae Eluned Morgan AS, y Prif Weinidog, yn gyfrifol am:

- gysylltiadau rhyngwladol gan gynnwys y rhwydwaith swyddfeydd tramor;
- Cymru ac Affrica;
- Cymru ac Ewrop;

[6] Ymchwiliad Pwyllgor: Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru
[7] Ymchwiliad Pwyllgor: Adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd
[8] Llywodraeth Cymru: Portffolio Gweinidogol – y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford MS

- diogelwch cenedlaethol, gan gynnwys gwrthderfysgaeth a seiberddiogelwch; a'r
- Cod Gweinidogol (sy'n cynnwys dyletswyddau rhwymedigaethau rhyngwladol).

**11.** Mae portffolios gweinidogol eraill hefyd yn ymdrin â materion rhyngwladol, gan gynnwys masnach, polisi ffoaduriaid, hawliau dynol, cyfiawnder cymdeithasol a materion cyfansoddiadol.

# 2. Gwella tryloywder

**12.** Nid yw Llywodraeth Cymru yn adrodd ar gysylltiadau rhyngwladol mewn un lle yn unig, ac mae gofynion i ddarparu gwybodaeth i'r Senedd ar y pwnc yn gyfyngedig.

**13.** Ers i'r Pwyllgor gael ei sefydlu ym mis Mehefin 2021, rydym wedi ceisio sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth yn rheolaidd i'r Senedd. Gwneir hyn i sicrhau nad yw cysylltiadau rhyngwladol, yn niffyg Gweinidog penodedig, yn colli dim o ran ffocws yn ystod y cyfnodau rhwng sesiynau craffu blynyddol gyda'r Prif Weinidog.

**14.** Mae'r Prif Weinidog hefyd yn cael ei wahodd gerbron y Pwyllgor ar gyfer gwaith craffu ar y gyllideb adrannol o £8.093 miliwn.[9]

**15.** Ar ein cais, cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu'r wybodaeth a ganlyn:

- Rhestrau misol o ymweliadau Gweinidogol tramor ac ymweliadau diplomyddol â Chymru. Cyn i ni gael y rhestrau hyn, byddai'r Pwyllgor yn dibynnu ar nifer o wahanol ffynonellau i fonitro ymweliadau, a byddai hyn yn creu heriau o ran craffu'n effeithiol ar weithgareddau Llywodraeth Cymru;
- Adroddiadau blynyddol ar weithgareddau swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru;
- Hysbysiadau o gyfarfodydd rhynglywodraethol o dan y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol;[10]
- Gwybodaeth benodol mewn ymateb i geisiadau Pwyllgorau, gan gynnwys copïau o ohebiaeth, ceisiadau am ystadegau, a gwybodaeth fanwl am agweddau penodol ar ein gwaith; ac
- Ar gais y Pwyllgor, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi lansio tudalen we newydd ar gyfer cytundebau dwyochrog rhyngwladol[11], gan eu

[9] Llywodraeth Cymru: Cyllideb Derfynol 2024 i 2025 – 27 Chwefror 2024
[10] Senedd Cymru: Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol - Tachwedd 2021
[11] Llywodraeth Cymru: Cytundebau dwyochrog trawsbynciol - 13 Mehefin 2023

gwneud yn gyfartal â'r modd mae cytundebau domestig cyfwerth[12] yn cael eu cyflwyno ar ei gwefan.

**16.** Rydym yn parhau i wneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar ffyrdd iddi wella ymhellach yr wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd er mwyn gwella craffu, cynorthwyo partïon â diddordeb ac arddangos ei gweithgareddau.

[12] Llywodraeth Cymru: Concordatau, memoranda cyd-ddealltwriaeth a chytundebau eraill – 9 Mehefin 2023

# 3. Y gyllideb

**17.** Mae'r Pwyllgor yn cynnal gwaith craffu blynyddol[13] ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru o ran gwaith cysylltiadau rhyngwladol.

**18.** Ers ein hadroddiad blynyddol diwethaf, rydym wedi cwblhau gwaith craffu ar ddwy gyllideb ddrafft, ar gyfer 2024-25[14] a 2025-26, yn y drefn honno.

**19.** O ran y ddau gylch cyllidebol, mynegom ein siom nad oedd y Prif Weinidog am roi tystiolaeth lafar[15] ac wedi darparu gwybodaeth ysgrifenedig yn lle hynny.

**20.** O ran cyllideb ddrafft 2025-26, daethom i'r casgliad, yn absenoldeb tystiolaeth lafar, ei bod hi'n hanfodol bod y dystiolaeth ysgrifenedig yn glir, yn fanwl ac o ansawdd uchel. Rhaid iddi ddarparu digon o wybodaeth a thystiolaeth am allbynnau, canlyniadau, effaith, a gwerth am arian a fwriedir.

**21.** Rydym yn gresynu, unwaith eto, fod yr wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn nhystiolaeth y Prif Weinidog yn disgyn islaw'r safon rydym yn ei disgwyl, ac y buom yn galw amdani yn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft 2024-25. Daethom i'r casgliad a ganlyn:

> *"mae diffyg gwybodaeth angenrheidiol, ynghyd â diffyg cyfle mewn tystiolaeth lafar i archwilio ac egluro materion, yn golygu, unwaith eto, nad ydym mewn sefyllfa i graffu'n hyderus ar wariant arfaethedig ar weithgarwch rhyngwladol."*[16]

**22.** Yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2025-25, fe wnaethom nodi bod:

> *"… un cyfle olaf yn parhau yn y Senedd hon i Lywodraeth Cymru ymgysylltu'n effeithiol â'n gwaith craffu ar gynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol, a sicrhau cydraddoldeb â phortffolios Gweinidogion eraill. Disgwyliwn welliant sylweddol y*

[13] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Gwaith wedi'i gwblhau ac adroddiadau cyhoeddedig
[14] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25
[15] Llythyr at y Prif Weinidog: Rhoi tystiolaeth lafar am Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 – 30 Tachwedd 2022 [PDF 77KB]
[16] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26

> *flwyddyn nesaf a phwysleisiwn na all y sefyllfa hon barhau i'r seithfed Senedd."*[17]

**23.** Ar 20 Chwefror 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chyllideb derfynol ar gyfer 2025-26 a gadarnhaodd mai £8.193 miliwn yw'r dyraniad cyllideb terfynol ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol, gydag £1.050 miliwn ar gyfer Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol.[18] Mae hyn yn nodi anghysondeb o £50,000 yn y dadansoddiadau a ddarparwyd i ni yn ystod y broses o graffu ar y gyllideb ddrafft o ran y gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol.

**24.** Ar 3 Mawrth 2025, cawsom ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad ar gyllideb ddrafft 2025-26.

**25.** Byddwn yn parhau â gwaith craffu ariannol y Pwyllgor ar weithgarwch rhyngwladol yn ein sesiynau craffu blynyddol gyda'r Prif Weinidog a thrwy ymchwiliadau pwnc-benodol.

---

[17] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26

[18] Llywodraeth Cymru: Cyllideb Derfynol 2025 i 2026

# 4. Strategaeth Ryngwladol

**26.** Nid yw Llywodraeth Cymru yn adrodd yn benodol ar ei Strategaeth Ryngwladol (2020-25). Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn monitro'r hyn sy'n digwydd ym maes cysylltiadau rhyngwladol er mwyn mesur cynnydd. At y perwyl hwn, mae'n defnyddio cyfuniad o adroddiadau swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru, datganiadau Gweinidogion, sesiynau tystiolaeth, busnes y Senedd a'r cyfryngau cymdeithasol.

**27.** Cyhoeddwyd y Strategaeth Ryngwladol ym mis Ionawr 2020 a'i phum cynllun gweithredu ym mis Tachwedd 2020. Er nad yw'r strategaeth ryngwladol yn cynnwys dyddiadau penodol ar gyfer cyflawni camau, mae rhai cynlluniau gweithredu yn rhestru gweithgareddau 'tymor byr' (2020-21) a thymor canolig (2022-25) heb nodi ym mha flwyddyn y cynhelir y gweithgareddau.

**28.** Fe wnaethom gynnal dadansoddiad a ddangosodd fod dros 270 o gamau mesuradwy wedi eu rhestru yn y Strategaeth Ryngwladol a'i phum cynllun gweithredu cysylltiedig. Ym mis Mehefin 2024, fe wnaethom rannu'r dadansoddiad hwn â Llywodraeth Cymru, a groesawyd gan y cyn Brif Weinidog, Vaughan Gething AS,[19] a chan y Prif Weinidog presennol, Eluned Morgan AS.[20]

**29.** Rydym wedi ceisio canfod faint o'r camau gweithredu hyn sydd wedi cael eu cyflawni a faint sydd ar ôl i'w cyflawni cyn i'r Strategaeth ddod i ben eleni. Ym mis Rhagfyr 2024, dywedodd y Prif Weinidog wrth y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog:

> *"There are areas within the strategy that are green, which have been done, they've been delivered. There are bits where it may be red and will continue to be red, and then we need to give you an explanation for why it is red. But there are lots of amber bits in there that we need to say, 'Right, come on, we've got 18 months left; let's get cracking, let's make sure we deliver on what we said we were going to do.' So, that is very much the formula that I'm very keen to make sure that you have sight of, where it is we're delivering, and also where you need to hold us to account because we're not."*[21]

[19] Llythyr gan y cyn Brif Weinidog i'r Pwyllgor: 1 Awst 2024
[20] Cyfarfod y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog: 13 Rhagfyr 2024
[21] Cyfarfod y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog: 13 Rhagfyr 2024

**30.** Nid ydym wedi cael yr wybodaeth hon eto ac nid ydym wedi canfod faint o gamau gweithredu sydd wedi eu cyflawni, neu sydd ar ôl i'w cyflawni.

## Adnewyddu'r Strategaeth Ryngwladol

**31.** Ers 2023, rydym wedi trafod cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru y tu hwnt i 2025 gyda'r cyn-Brif Weinidogion, Mark Drakeford AS a Vaughan Gething AS. Ym mis Mai 2023, ymrwymodd Mark Drakeford AS i adfywio'r Strategaeth yn 2025 i gwmpasu'r amser tan etholiad Senedd 2026,[22] a chadarnhaodd Vaughan Gething AS ym mis Mehefin 2024 fod cynlluniau i adolygu'r adnewyddiad ar y gweill.[23] Ymrwymodd y ddau gyn Brif Weinidog i gynnwys y Pwyllgor Diwylliant yn y gwaith hwn.

**32.** Yn ein hadroddiad blynyddol diwethaf, fe wnaethom annog Llywodraeth Cymru i gynnwys rhanddeiliaid yn y gwaith hwn.

## Cynllun Cyflawni Strategaeth Ryngwladol newydd

**33.** Ar 21 Tachwedd 2024, cyhoeddodd y Prif Weinidog:

> *"Yn gynnar y flwyddyn nesaf, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ein Cynllun Cyflawni Rhyngwladol, a fydd yn nodi'r gweithgareddau rhyngwladol i gefnogi'r gwaith o gyflawni fy mhedair blaenoriaeth."*[24]

**34.** Ar 13 Rhagfyr 2024, cadarnhaodd y Prif Weinidog i'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ei bod yn bwriadu cyhoeddi Cynllun Cyflawni Strategaeth Ryngwladol "yn gynnar yn 2025". Bydd y Cynllun Cyflawni yn:

i. disodli'r cynlluniau ar gyfer gwaith adnewyddu disgwyliedig ar y Strategaeth Ryngwladol; a

ii. nodi gweddill gweithgareddau'r Strategaeth Ryngwladol i'w cyflawni yng ngweddill y Chweched Senedd.

**35.** Yn ystod y sesiwn, gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor, Delyth Jewell AS, i'r Prif Weinidog:

[22] Cyfarfod Pwyllgor: 10 Mai 2023
[23] Cyfarfod Pwyllgor: 19 Mehefin 2024
[24] Llywodraeth Cymru: datganiad i'r wasg – 21 Tachwedd 2024

> *"When the plan had originally been for there to be a refresh of the international strategy early next year, both of your predecessors in this role and this Senedd had committed to providing a role for the CCWLSIR Committee in that refresh. [...] Could you clarify, please, what that means for the commitment that had been given to the culture and international relations committee in terms of the role that we would have in that?"*

**36.** Atebodd y Prif Weinidog:

> *"Well, we won't be doing a refresh, and so the role will be different.*
>
> *Where I'd see the role of the committee is in scrutinising the delivery itself. I know that you, as a committee, did an assessment of the international relations strategy, so that was really useful for us.*
>
> *We do annual updates to keep you informed of where we're at and whether we're on track or not, but I think that is probably where the focus of your committee could actually helpfully be deployed, in making sure-.*
>
> *You know, I'm trying to breathe down the neck of officials here. It's important that you breathe down my neck to make sure that I keep up the pressure on the officials.*
>
> *So, for me, it's all about, 'Let's stop writing strategies; let's make sure it's about delivery of the strategies.' It's actually much, much easier to write a strategy than to deliver one. And so, I'm trying to shift the focus across the whole of Government away from writing strategies all the time—'Just focus on delivery of what we've got now on the table, get that done. Once we've completed that, we'll look at the next thing.' That's where I'm at, in keeping, ideally, with the full priorities that I set out in September."*

**37.** Yn dilyn y drafodaeth hon, fe wnaethom ysgrifennu at y Prif Weinidog yn gofyn am ragor o wybodaeth. Ymatebodd y Prif Weinidog ar 28 Ionawr 2025, gan gadarnhau:

> *"Wrth inni nesáu at bum mlynedd ers cyhoeddi'r Strategaeth Ryngwladol, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion baratoi Cynllun Cyflawni*

> *a fydd yn nodi ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Bydd yn nodi lle y gallwn gael yr effaith fwyaf ar y llwyfan byd-eang. Rwy'n bwriadu rhannu hyn gyda'r Pwyllgor yn ystod yr wythnosau nesaf.*
>
> *Yn ogystal â rhannu'r ddogfen, byddwn yn hapus i ofyn i'r swyddogion roi briff technegol i'r Pwyllgor cyn rhyddhau'r Cynllun Cyflawni."*[25]

**38.** Ni chawsom yr wybodaeth hon ac fe wnaethom ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf ar 4 Mawrth 2025.

**Casgliad 1.** Rydym yn nodi newid dull Llywodraeth Cymru o ran adnewyddu'r Strategaeth Ryngwladol a bod yr ymrwymiadau a wnaed i'r Pwyllgor hwn ynghylch ei chynnwys wedi eu treiglo'n ôl.

**39.** Cawsom ymateb gan Lywodraeth Cymru i'n hadroddiad ar gyllideb ddrafft 2025-26 ar 3 Mawrth 2025, lle cadarnhaodd y Prif Weinidog y bydd y Cynllun Cyflawni yn cael ei lansio "erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol".

**Casgliad 2.** Rydym yn siomedig nad yw Cynllun Cyflawni newydd y Strategaeth Ryngwladol wedi cael ei wireddu. Mae'n bwysig, o ystyried ein bod ni dri mis i mewn i 2025 erbyn hyn, ei fod yn cael ei ddarparu'n gyflym i'r Pwyllgor hwn, rhanddeiliaid a phartïon eraill â diddordeb.

**Casgliad 3.** Rydym yn croesawu cynnig y Prif Weinidog i roi papur briffio technegol i'r Pwyllgor hwn ar y Cynllun Cyflawni cyn ei gyhoeddi.

**40.** Bydd ein hystyriaeth o'r Cynllun Cyflawni yn rhan o'n hymchwiliad i Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru, yr ydym yn bwriadu ei gynnal yn ystod tymor yr haf 2025.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu a restrir yn y Strategaeth Ryngwladol a'i chynlluniau gweithredu, yn unol â'r ymrwymiad a wnaed gan y Prif Weinidog yn ystod tystiolaeth i'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ym mis Rhagfyr 2024.

[25] Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog: 28 Ionawr 2025

## Rhwydwaith swyddfeydd tramor

**41.** Mae:

- adroddiadau blynyddol Llywodraeth Cymru ar y rhwydwaith tramor[26]; a
- dogfen cylch gwaith y swyddfeydd tramor[27],

yn rhannau allweddol o waith craffu'r Pwyllgor ar gysylltiadau rhyngwladol.

**42.** Mae pob Prif Weinidog sydd wedi gwasanaethu yn y Chweched Senedd wedi cyfeirio'r Pwyllgor at adroddiadau rhwydwaith tramor Llywodraeth Cymru i fesur allbwn, ond nid yw'r rhain yn cysylltu â chamau gweithredu'r Strategaeth Ryngwladol. Yn ei gwybodaeth ysgrifenedig a ddarparwyd yn ystod y gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft, dywedodd y Prif Weinidog:

> *"Oherwydd natur cysylltiadau rhyngwladol, gall fod yn anodd meintioli a mesur allbynnau a chanlyniadau. Mae'r adroddiad blynyddol ar y rhwydwaith tramor yn un o'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i nodi ein canlyniadau."*[28]

**43.** Nodwn y newid yn nheitl yr adroddiadau hyn, o 'adroddiadau blynyddol y rhwydwaith tramor' cyn 2023-24, i 'adroddiad blynyddol cysylltiadau rhyngwladol' ar gyfer 2023-24. Nid yw'n glir a yw hyn yn arwydd o ddull ehangach na'r hyn a fabwysiadwyd yn flaenorol ar gyfer adroddiadau cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 a 2022-23.

**44.** Ym mis Medi 2024, fe wnaethom ymweld â swyddfa Llywodraeth Cymru yn Nulyn fel rhan o ymweliad dirprwyaeth traws-bwyllgor i wella cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon.[29] Ym mis Tachwedd 2024, fe wnaethom hefyd ymweld â swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel, lle lansiwyd ein hadroddiad, Sioc ddiwylliannol: Diwylliant a'r berthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd.[30]

**45.** Mae Aelodau'r Pwyllgor hefyd yn ymweld yn rheolaidd â swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel yn rhinwedd eu rôl fel cynrychiolwyr y Senedd ar

---

[26] Llywodraeth Cymru: Adroddiad blynyddol cysylltiadau rhyngwladol 2023 i 2024 – 19 Mehefin 2024
[27] Llywodraeth Cymru: Cylchoedd gwaith rhwydwaith swyddfeydd rhyngwladol Llywodraeth Cymru – 27 Medi 2023
[28] Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog: 20 Rhagfyr 2024
[29] Adroddiad Ymweld: Ymweliad Traws-Bwyllgor ag Iwerddon
[30] Ymchwiliad Pwyllgor: Diwylliant a'r berthynas newydd â'r UE

gyrff y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn dilyn Brexit, fel y Cynulliad Partneriaeth Seneddol[31] a Phwyllgor Rhanbarthau'r Undeb Ewropeaidd - Grŵp Cyswllt y Deyrnas Unedig.[32] Rydym yn ddiolchgar i'r swyddfeydd hyn am eu hymwneud â ni.

**Argymhelliad 2.** Y tu hwnt i Gynllun Cyflawni'r Strategaeth Ryngwladol, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn datblygu mecanweithiau i fonitro'r broses o gyflawni ei blaenoriaethau'n barhaus. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys, mewn adroddiadau blynyddol a ddarperir i'r Pwyllgor hwn a Phwyllgorau'r dyfodol, ddiweddariadau ar gynnydd i gyflawni blaenoriaethau a chamau gweithredu penodol a restrir yn ei strategaethau.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu rhestr o ddulliau mae'n eu defnyddio i adrodd ar ganlyniadau, yng ngoleuni datganiad y Prif Weinidog, mai dim ond "un o'r dulliau" a ddefnyddir yw ei hadroddiadau blynyddol.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro'r rhesymeg dros newid enw ei hadroddiadau rhwydwaith tramor blynyddol i 'adroddiadau blynyddol cysylltiadau rhyngwladol' a pha oblygiadau, os o gwbl, sydd gan hyn o ran yr hyn sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiadau.

## Y Rhaglen Lywodraethu

**46.** Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru[33] yn cynnwys ymrwymiadau i roi'r "presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar y llwyfan byd-eang". Nid yw'r Rhaglen Lywodraethu, a gyhoeddwyd gyntaf yn 2016 ac a ddiweddarwyd yn 2021, yn sôn am y Strategaeth Ryngwladol.

**47.** Nodir y tri ymrwymiad ychwanegol:

1. Sefydlu Academi Heddwch yng Nghymru;
2. Rhoi rhaglen cyfnewid dysgu rhyngwladol gwerth £65 miliwn ar waith; ac

[31] Ymchwil y Senedd "Magu Cyhyrau": Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE yn nodi angen hanfodol ar gyfer cydweithredu pellach – 24 Tachwedd 2022
[32] Ymchwil y Senedd: Meithrin Cysylltiadau'r Dyfodol: Y Senedd i groesawu cyfarfod cyntaf Pwyllgor y Rhanbarthau Ewropeaidd yn y DU - Grŵp Cyswllt y DU – 17 Mawrth 2022
[33] Llywodraeth Cymru: Y Rhaglen Lywodraethu – 4 Gorffennaf 2023

3. Ailfywiogi ein perthynas efeillio ledled yr Undeb Ewropeaidd drwy Gronfa Gefeillio Pobl Ifanc.

**48.** Sefydlwyd yr Academi Heddwch yn 2020 ac mae'n parhau i gael cyllid gan Lywodraeth Cymru[34].

**49.** Ar ôl Brexit, datblygodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen cyfnewid dysgu rhyngwladol ei hun, Taith (2022-26). Gostyngwyd cyllideb Taith £1.6 miliwn (o £8.1 i £6.5 miliwn) ar gyfer 2024-25, sy'n 19.8% o ostyngiad. Ar gyfer cyllideb ddrafft 2025-26, mae cyllideb Taith yn parhau i fod yn £6.5 miliwn. Yn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft 2025-26,[35] gofynnom i Lywodraeth Cymru pa ystyriaeth sy'n cael ei rhoi i gyllido Taith y tu hwnt i 2026.

**50.** Mae materion rhyngwladol, fel bioamrywiaeth, y polisi ffoaduriaid ac ymgorffori cytuniadau yng nghyfraith Cymru, wedi eu plethu drwy'r Rhaglen Lywodraethu, a byddant hefyd yn chwarae rhan bwysig yng nghysylltiadau rhyngwladol Cymru.

**51.** Yn ein hadroddiad diwethaf, fe wnaethom ymrwymo i fonitro cynnydd[36] yr ymrwymiadau hyn yn y Rhaglen Lywodraethu.

**52.** Cyfeiriodd y Prif Weinidog at ymrwymiad ychwanegol yn y rhaglen lywodraethu yn ystod y gwaith craffu ar gyllideb ddrafft 2025-26, sef cadw swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel. Cadarnhaodd y Prif Weinidog bod y brydles naw mlynedd ar swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel wedi ei hadnewyddu ym mis Mawrth 2023.[37]

---

[34] Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru: Datblygiad yr Academi Heddwch
[35] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26
[36] Ymchwil y Senedd: Cymru gartref a thramor – Medi 2023
[37] Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog: 20 Rhagfyr 2024

# 5. Cysylltiadau sy'n cael blaenoriaeth

**53.** Mae Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru yn nodi ei chysylltiadau sy'n cael blaenoriaeth:

> *"Gwledydd: Yr Almaen, Ffrainc, Iwerddon, UDA a Chanada Rhanbarthau: Gwlad y Basg, Llydaw a Fflandrys."*

## Cytundebau dwyochrog

**54.** Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o gytundebau dwyochrog rhyngwladol gweithredol ar waith gyda Québec, Llydaw, Gwlad y Basg, Iwerddon, Rhaglawiaeth Oita a Fflandrys.

**55.** O ganlyniad i'n gwaith, mae'r rhain wedi cael eu rhestru ar dudalen benodol ar wefan Llywodraeth Cymru.[38] Byddwn yn parhau i fonitro cytundebau dwyochrog rhyngwladol a gwblheir gan Lywodraeth Cymru.

**56.** 'Cytundebau dwyochrog rhyngwladol' oedd teitl gwreiddiol y dudalen we pan grëwyd hi ym mis Mawrth 2023, ond newidiwyd hyn ym mis Mehefin 2024 i 'gytundebau dwyochrog trawsbynciol' gan ein bod ni wedi cyfnewid gohebiaeth gyda'r cyn-Brif Weinidog, Vaughan Gething AS, ar gytundebau oedd yn ymddangos ar goll ohoni.[39] Er enghraifft, nid yw cytundeb recriwtio gofal iechyd Llywodraeth Cymru[40] gyda thalaith Kerala yn India ar y dudalen we.

**57.** Eglurodd y Prif Weinidog blaenorol:

> *"The web page has been updated to reflect and clarify that the bilateral agreements on this page are those that are delivered across government, coordinated by my International Relations team, rather than single policy agreements."*

**58.** Canlyniad y dull diwygiedig hwn yw nad oes lle penodol ar wefan Llywodraeth Cymru (nac yn unrhyw le arall) sy'n nodi faint o gytundebau dwyochrog rhyngwladol sydd gan Lywodraeth Cymru ar waith, a chyda phwy.

[38] Llywodraeth Cymru: Cytundebau dwyochrog trawsbynciol
[39] Llythyr oddi wrth y cyn Brif Weinidog: 2 Gorffennaf 2024
[40] Llywodraeth Cymru: Datganiad ysgrifenedig, 2 Mawrth 2024

**59.** Rydym o'r farn bod y newid hwn mewn ymagwedd yn gam yn ôl o ran gwella tryloywder ac ni welwn unrhyw reswm pam na ellir rhestru pob cytundeb dwyochrog rhyngwladol.

**60.** Rydym yn nodi mai dyma'r dull gweithredu gwreiddiol a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei Strategaeth Ryngwladol, lle mae 12 Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi eu rhestru yn Atodiad 1.[41]

**61.** Yn ystod ein gwaith, rydym wedi nodi'r dull gwahanol a ddefnyddiwyd gan bartneriaid Llywodraeth Cymru wrth gyhoeddi bod cytundebau rhyngwladol gyda Chymru wedi cael eu cwblhau.

**62.** Er enghraifft, ar 14 Tachwedd 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Baden-Württemberg dudalen we bwrpasol yn cyhoeddi'r bartneriaeth gyda chopi o'r Datganiad ar y Cyd yn Saesneg ac Almaeneg.[42] Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad i'r wasg ar 15 Tachwedd 2023, ac ychwanegwyd y Datganiad ar y Cyd at restr ei thudalen gwe cytundebau rhyngwladol dwyochrog.[43]

**63.** Ym mis Rhagfyr 2023, fe wnaethom ysgrifennu at y cyn Brif Weinidog, Mark Drakeford AS, a chyn Weinidog yr Economi, Vaughan Gething AS, i ofyn am ragor o wybodaeth am y Datganiad ar y Cyd.

**64.** Yn y llythyr, dywedodd ein Cadeirydd, Delyth Jewell AS, ein bod yn awyddus i ddeall "pam y mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyn lleied o fanylion", gan nodi'r dull gwahanol a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Baden-Württemberg. Dywedodd ei bod wedi "gobeithio gweld copi o'r Cyd-ddatganiad hwn yn cael ei rannu'n rhagweithiol â'r Pwyllgor hwn".[44]

**65.** Atebodd y cyn Brif Weinidog:

> *"Nid yw ein cytundeb gyda llywodraeth B-W yn dilyn cynllun gweithredu manwl neu ffurfiol."*[45]

**66.** Rydym yn nodi bod adroddiad blynyddol cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru 2023-24 yn rhestru nifer o Femoranda Cyd-ddealltwriaeth newydd sydd wedi eu llofnodi gyda Chatalwnia, Sacsoni, Llywodraeth Bafaria ac

[41] Llywodraeth Cymru: Strategaeth Ryngwladol
[42] Llywodraeth Baden-Württemberg: Wales und Baden-Württemberg bauen Zusammenarbeit aus
[43] Datganiad i'r wasg Llywodraeth Cymru: 15 Tachwedd 2023
[44] Llythyr at y cyn Brif Weinidog: 19 Rhagfyr 2023
[45] Llythyr oddi wrth y cyn Brif Weinidog: 29 Ionawr 2024

eraill, gan gynnwys Cynghrair Rhanbarthau Silicon Ewrop (ESRA), prifysgolion a chwmnïau preifat.[46] Nid yw'r rhain wedi eu hychwanegu at dudalen we cytundebau rhyngwladol Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i restru'r holl gytundebau dwyochrog rhyngwladol ar ei thudalen we bwrpasol.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi gwybod i'r Pwyllgor hwn yn rhagweithiol pan fydd cytundebau dwyochrog rhyngwladol newydd yn cael eu llofnodi.

## Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon

**67.** Mae Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru yn nodi Iwerddon fel gwlad flaenoriaeth o ran cynnal perthynas â hi. Mae'r ddwy lywodraeth wedi llofnodi Cyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd[47] sy'n amlinellu sut byddant yn cydweithio ar feysydd polisi a rennir.

**68.** Dyma berthynas ryngwladol strategol fwyaf datblygedig Llywodraeth Cymru â gwlad arall a'i llywodraeth, gyda dulliau ymgysylltu strwythuredig, amcanion strategol a chamau gweithredu penodol.

**69.** Fe wnaethom gynnal ymchwiliad[48] i'r berthynas hon, gan gyhoeddi ein hadroddiad[49] ar 5 Hydref 2023.

**70.** Rydym wedi parhau i fonitro cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon, ac mae ein Cadeirydd yn cynnal cyfarfodydd dwyochrog rheolaidd gyda Chonswl Cyffredinol Iwerddon yng Nghaerdydd sy'n amhrisiadwy i'n gwaith. Estynnwn ein diolch i'r Conswl Cyffredinol am y cydweithredu agos hwn.

**71.** Ym mis Medi 2024, ymunodd ein haelodau â dirprwyaeth traws-bwyllgor i Ddulyn. Yn ein hadroddiad ymweliad,[50] gwnaethom yr ymrwymiadau a ganlyn:

[46] Llywodraeth Cymru: Adroddiad blynyddol cysylltiadau rhyngwladol 2023 i 2024 – 19 Mehefin 2024
[47] Llywodraeth Cymru: Iwerddon-Cymru: Cyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd 2021 i 2025– 1 Mawrth 2021
[48] Ymchwiliad Pwyllgor: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon
[49] Adroddiad Pwyllgor: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: Archwilio hen berthynas mewn oes newydd – Hydref 2023 [PDF 1.9MB]
[50] Adroddiad Ymweld: Ymweliad Traws-Bwyllgor ag Iwerddon

- Parhau i fonitro adnewyddu Cyd-ddatganiad Cymru-Iwerddon a'r Cynllun Gweithredu ar y Cyd.
- Ystyried craffu dilynol ar yr ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon, gan gynnwys ailedrych ar argymhellion y Pwyllgor ac ymateb Llywodraeth Cymru.
- Ffurfioli cysylltiadau â Chadeirydd Pwyllgor yr Oireachtas ar Dwristiaeth, Diwylliant, y Celfyddydau, Chwaraeon a'r Cyfryngau, gan gynnwys archwilio datblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth, neu debyg.
- Trefnu cyfarfodydd tymhorol rhwng Cadeiryddion y pwyllgorau.

**72.** Edrychwn ymlaen at weld y gwaith hwn yn datblygu.

## Cysylltiadau rhwng Cymru a'r Undeb Ewropeaidd

**73.** Yn ein hadroddiad diwethaf, casglwyd ynghyd ein harsylwadau blaenorol yn ymwneud â chysylltiadau rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd a Chymru a'r Undeb Ewropeaidd.

**74.** Ar hyn o bryd rydym yn gwneud gwaith ar yr adolygiad gweithredu sydd ar ddod o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu[51] a Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru.[52] Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gawsom fod y berthynas â'r Undeb Ewropeaidd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i randdeiliaid.[53]

**75.** Rydym wedi galw o'r blaen ar Lywodraeth Cymru i gynnwys yr Undeb Ewropeaidd fel un o'i chysylltiadau sy'n cael blaenoriaeth. Mewn ymateb, ni roddodd y cyn Brif Weinidog, Mark Drakeford AS, sylw penodol i'r argymhelliad hwn.[54]

**76.** Rydym wedi galw o'r blaen ar Lywodraeth Cymru i lunio strategaeth benodol ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd. Mae hyn wedi ei wrthod gan Lywodraeth Cymru ar ddau achlysur – mewn ymateb i'n hadroddiad blynyddol cyntaf[55] ac mewn

[51] Ymchwiliad Pwyllgor: Adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE
[52] Ymchwiliad Pwyllgor: Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru
[53] Ymgynghoriad Pwyllgor: Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru
[54] Ymateb Llywodraeth Cymru: 16 Ionawr 2024
[55] Ymateb Llywodraeth Cymru: 16 Ionawr 2024

ymateb i'n hadroddiad, *Sioc ddiwylliannol: Diwylliant a'r berthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd*.[56]

**77.** Rydym hefyd wedi galw o'r blaen ar i Lywodraeth Cymru fod yn fwy penodol wrth nodi ei blaenoriaethau fel maent yn ymwneud â'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd a Chymru a'r Undeb Ewropeaidd, yn absenoldeb strategaeth benodedig.[57] Yn fwyaf diweddar mae ein hymdrechion wedi arwain at y Prif Weinidog yn nodi ei blaenoriaethau o ran yr Undeb Ewropeaidd ym mis Ionawr 2025. Mewn llythyr at y Pwyllgor hwn, amlinellodd naw blaenoriaeth ar gyfer yr adolygiad gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu sydd ar ddod fel a ganlyn[58]:

1. Yr angen am gytundeb milfeddygol ac iechyd planhigion (iechydol a ffytoiechydol);
2. Mynd i'r afael â materion yn ymwneud â symudedd gweithwyr a darparu gwasanaethau;
3. Yr angen am well trefniadau ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol yn Gilyddol;
4. Archwilio opsiynau i ailymuno â rhaglenni'r Undeb Ewropeaidd fel Erasmus+ ac Ewrop Greadigol.
5. Sicrhau cadw Digonolrwydd Data'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer busnesau o Gymru sy'n masnachu gyda'r Undeb Ewropeaidd;
6. Ceisio Cytundebau Cydnabyddiaeth Gilyddol (MRAs), yn enwedig ar asesiadau cydymffurfiaeth i leihau unrhyw ddrwgdeimlad o ran masnach;
7. Mynd i'r afael â materion allforio yn ymwneud â molysgiaid dwygragennog byw (LBMs);
8. Trafodaethau ynghylch rheolau tarddiad er mwyn galluogi busnesau i ddefnyddio cadwyni cyflenwi mwy a masnachu'n ddi-dariff;
9. Trefniadau masnachu trydan effeithiol.

---

[56] Ymateb Llywodraeth Cymru: 10 Rhagfyr 2024
[57] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Adroddiad Blynyddol Cysylltiadau Rhyngwladol 2022-23
[58] Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog: 28 Ionawr 2025

**Casgliad 4.** Rydym yn croesawu'r blaenoriaethau a ddarparwyd gan y Prif Weinidog ar gyfer yr adolygiad gweithredu sydd ar ddod o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, ond rydym yn parhau i fod yn siomedig nad yw Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu strategaeth benodol ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd sy'n amlinellu ei blaenoriaethau cyffredinol ar gyfer cysylltiadau â'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys ar gyfer ailosod y berthynas rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.

**Casgliad 5.** Byddwn yn parhau i graffu ar Lywodraeth Cymru ar ddatblygu a chyflawni ei blaenoriaethau o ran yr Undeb Ewropeaidd yn ystod y flwyddyn dyngedfennol hon o ran cysylltiadau rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.

# 6. Ymweliadau tramor ac ymwelwyr

**78.** Mae'r Pwyllgor yn cael rhestrau misol o ymweliadau Gweinidogol dramor ac ymweliadau diplomyddol â Chymru.

**79.** Dyma a ddywed Cod Gweinidogion Llywodraeth Cymru[59]:

> *"Bydd rhestr yn cael ei chyhoeddi bob blwyddyn o bob un o'r teithiau dramor gan Weinidogion sy'n costio mwy na £500, ynghyd â chyfanswm cost holl ymweliadau'r Gweinidogion dramor." [paragraff 9.8]*

**80.** Mae paragraffau 9.2 i 9.10 o God y Gweinidogion yn pennu rheolau ar gyfer ymweliadau Gweinidogion dramor.

**81.** Mae paragraff 5.22 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod rhestr o roddion a lletygarwch gwerth mwy na £320 a dderbynnir gan Weinidogion ar ran Llywodraeth Cymru yn cael ei chyhoeddi bob blwyddyn.

**82.** Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi costau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar ei gwefan. Cyhoeddwyd costau ar gyfer 2023-24 ym mis Awst 2024, sef cyfanswm o £52,679.53.[60]

**83.** Rydym yn nodi bod Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu costau penodol mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau'r Senedd. Er enghraifft, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru mai cyfanswm cost teithiau hedfan ar gyfer 2024 oedd £14,973.81 mewn ymateb i gwestiwn ysgrifenedig gan Darren Millar AS.[61]

**84.** Ym mis Ionawr 2025, atebodd Llywodraeth Cymru gyfres o gwestiynau ysgrifenedig ar gostau staffio a chynnal ei swyddfeydd tramor. Darparodd ddadansoddiadau o leoliadau a manylion staffio, gan gadarnhau bod 43 o staff yn cael eu cyflogi ar draws ei 20 lleoliad swyddfa. Roedd hefyd yn cynnwys y tabl a ganlyn, gan ddadansoddi costau fesul blwyddyn.[62]

[59] Llywodraeth Cymru: Cod y Gweinidogion
[60] Llywodraeth Cymru: Cyhoeddiad gwybodaeth am God y Gweinidogion: 6ed Senedd
[61] Llywodraeth Cymru: Ymateb i gwestiwn ysgrifenedig WQ95407
[62] Tudalen we Senedd Cymru: Cwestiynau Ysgrifenedig a gyflwynwyd ar 20/12/2024 i'w hateb ar 02/01/2025

| Blwyddyn | Costau |
|---|---|
| **2019-20** | £5.515 miliwn |
| **2020-21** | £4.475 miliwn |
| **2021-22** | £4.642 miliwn |
| **2022-23** | £5.530 miliwn |
| **2023-24** | £4.684 miliwn |
| **2024-25** | £4.684 miliwn |

**85.** Nodwyd hefyd:

> *"Individual costs per overseas office are no longer available due to a change in the way in which the Welsh Government is now charged by the Foreign Commonwealth & Development Office (FCDO) for co-location within its offices overseas."*[63]

## Dull gweithredu Llywodraeth yr Alban

**86.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir gan Lywodraeth yr Alban i gyhoeddi costau ymweliadau tramor.

**87.** Yn wahanol i Lywodraeth Cymru, mae Llywodraeth yr Alban yn cyhoeddi gwybodaeth am ymweliadau tramor fel mater o drefn ar ei gwefan ynghyd â gwybodaeth ehangach am ymrwymiadau Gweinidogol, teithiau mewn ceir, teithio domestig a rhoddion. Caiff data teithio ei ddadansoddi fesul Gweinidog, a'i gyhoeddi ochr yn ochr â nifer y swyddogion a oedd hefyd yn bresennol a'r costau.[64]

**88.** Nodir ym mharagraff 11.17 o God Gweinidogion yr Alban bod Llywodraeth yr Alban yn cyhoeddi manylion chwarterol yr holl deithiau tramor gan bob Gweinidog dri mis yn ddiweddarach.[65] Cyhoeddwyd y set ddiweddaraf o dablau ym mis Chwefror 2025 mewn perthynas â chostau a ysgwyddwyd ym mis Hydref 2024.[66]

[63] Tudalen we Senedd Cymru: Cwestiynau Ysgrifenedig a gyflwynwyd ar 20/12/2024 i'w hateb ar 02/01/2025
[64] Llywodraeth yr Alban: Ministerial engagements, travel and gifts
[65] Llywodraeth yr Alban: Ministerial Code 2024 Edition
[66] Llywodraeth yr Alban: Ministerial engagements, travel and gifts: October 2024

**89.** Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro ymweliadau tramor, gan gynnwys costau cysylltiedig.

**Casgliad 6.** Rydym yn nodi'r dull gwahanol a ddefnyddir gan Lywodraeth yr Alban i gyhoeddi costau ymweliadau tramor sy'n cyhoeddi manylion yr holl deithiau tramor gan Weinidogion dri mis yn ddiweddarach bob chwarter.

# 7. Deddfwriaeth

**90.** Mae'r Pwyllgor yn trafod deddfwriaeth sy'n ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol, fel a ganlyn.

## Cydsyniad Deddfwriaethol

**91.** Pan fydd Senedd y Deyrnas Unedig am ddeddfu ar faes sydd wedi ei ddatganoli i Senedd Cymru, mae confensiwn yn ei gwneud yn ofynnol iddi gael cydsyniad Senedd Cymru cyn y caiff basio'r ddeddfwriaeth dan sylw.

**92.** Mae hyn yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol (LCM) ac yn cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn gofyn am gytundeb y Senedd i'r hyn sydd wedi ei gynnwys ym Mil y Deyrnas Unedig o fewn meysydd datganoledig.

**93.** Cawsom y dasg o graffu ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a ganlyn[67]:

### Bil Data (Defnydd a Mynediad)

**94.** Yn ddiweddar, rydym wedi cynnal gwaith craffu ar femorandwm cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad).

**95.** Mae ein hadroddiad yn ailadrodd ein pryderon a amlinellwyd yn flaenorol mewn perthynas â Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol Llywodraeth flaenorol y Deyrnas Unedig.[68]

**96.** O ran cysylltiadau rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, rydym yn rhannu pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch y posibilrwydd o golli penderfyniadau digonolrwydd yr Undeb Ewropeaidd a'r posibilrwydd y gallai'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu gael ei danseilio yn y dyfodol pe bai'r Bil yn arwain at wahaniaethau rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.

## Cytuniadau rhyngwladol

**97.** Rydym yn trafod cytuniadau a ddygir i'n sylw gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, sydd â phroses bwrpasol ar gyfer craffu ar

[67] Senedd Cymru: Cydsyniad Deddfwriaethol – Chweched Senedd
[68] Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol

gytuniadau.[69] Mae'r Pwyllgor hwnnw'n rhoi gwybod i bwyllgorau eraill y Senedd am gytuniadau mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cytuno arnynt sy'n dod o fewn eu cylchoedd gwaith.

## Confensiwn UNESCO ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol

**98.** Cadarnhaodd Llywodraeth flaenorol y Deyrnas Unedig Gonfensiwn 2003 UNESCO ar Ddiogelu'r Dreftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol (ICH) ym mis Mawrth 2024, ac o dan hwnnw roedd nifer o draddodiadau Cymreig y gellid eu cydnabod a'u gwarchod. Daeth y Confensiwn i rym ar 7 Mehefin 2024. Yn ogystal, lansiodd Lywodraeth flaenorol y Deyrnas Unedig ymgynghoriad cyhoeddus[70] ar weithrediad cychwynnol y Confensiwn, a ddaeth i ben ar 29 Chwefror 2024. Nid oes diweddariad pellach wedi bod ers i'r ymgynghoriad ddod i ben.

**99.** Ym mis Chwefror 2024, fe wnaethom ysgrifennu at Lywodraeth y Deyrnas Unedig[71] ac at Lywodraeth Cymru[72] i gael gwybod mwy am y Confensiwn, gan gynnwys y trefniadau ymarferol a'r manteision posibl i Gymru. Ym mis Mawrth 2024, cawsom ymatebion gan y ddwy Lywodraeth.

**100.** Roedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn croesawu ein diddordeb yn fawr,[73] a dywedodd ei bod wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r llywodraethau datganoledig i baratoi ar gyfer cadarnhau'r Confensiwn. Dywedodd hefyd mai un o fanteision y Confensiwn oedd y byddai'n dechrau sgwrs am yr amrywiaeth o dreftadaeth ddiwylliannol anniriaethol sy'n bodoli ledled y Deyrnas Unedig.

**101.** Roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn croesawu'r penderfyniad i gadarnhau'r Confensiwn, gan ei ddisgrifio fel "cyfle i godi ymwybyddiaeth a phroffil Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol yng Nghymru".[74] O ran y cwestiwn a ddylai Dydd Gŵyl Dewi fod yn Ŵyl y Banc yng Nghymru, dywedodd Llywodraeth Cymru nad yw creu gwyliau banc yn fater datganoledig, a bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig

---

[69] Senedd Cymru: Cytundebau rhyngwladol
[70] Ymgynghoriad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig: 2003 UNESCO Convention for the Safeguarding of the Intangible Cultural Heritage
[71] Llythyr gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: 9 Chwefror 2024
[72] Llythyr gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: 9 Chwefror 2024
[73] Llythyr gan Weinidog y Deyrnas Unedig dros y Celfyddydau a Threftadaeth: 8 Mawrth 2024
[74] Llythyr gan y Prif Weinidog a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: 6 Mawrth 2024

wedi gwrthod cais yn ffurfiol ym mis Hydref 2002 ac wedi cadw at y safbwynt hwnnw ers hynny.[75]

## Diwygiadau i'r Cytundeb sy'n Sefydlu Cronfa Datblygu Affrica

**102.** Ar 19 Chwefror, fe wnaethom drafod y Diwygiadau i'r Cytundeb sy'n Sefydlu Cronfa Datblygu Affrica. Yn sgil ein gwaith craffu ar gynllun gweithredu Cymru ac Affrica Llywodraeth Cymru, fe wnaethom gytuno i ysgrifennu at lywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig yn gofyn am ragor o wybodaeth am eu gweithgarwch rhyngwladol yn ymwneud ag Affrica.[76]

**Argymhelliad 7.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â gweithredu Confensiwn UNESCO ar Ddiogelu'r Dreftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol, gan gynnwys ei blaenoriaethau ar gyfer cydnabod a gwarchod traddodiadau Cymreig, ac ar drafodaethau rhynglywodraethol.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gadarnhau a yw wedi ailedrych ar fater dynodi Dydd Gŵyl Dewi yn Ŵyl y Banc yng Nghymru gyda Llywodraeth newydd y Deyrnas Unedig, a'i hymateb.

---

[75] Llythyr gan y Prif Weinidog a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: 6 Mawrth 2024

[76] Cyfarfod Pwyllgor: 19 Chwefror 2025

# 8. Gwaith yn y dyfodol

**103.** Yn ogystal â'n gwaith craffu arferol ar gysylltiadau rhyngwladol, rydym ar hyn o bryd yn gwneud y gwaith a ganlyn:

- Gwaith traws-bwyllgor ar yr adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd:[77] ac

- Ymchwiliad Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru.[78]

**104.** Rydym wedi ymrwymo o'r blaen i fonitro cysylltiadau Cymru-Iwerddon, gan gynnwys adnewyddu'r Datganiad ar y Cyd a'r Cynllun Gweithredu ar y Cyd yn 2025.

**105.** Mae'r Prif Weinidog hefyd wedi cadarnhau y bydd hi'n ymddangos ar gyfer gwaith craffu blynyddol ar gysylltiadau rhyngwladol ym mis Mehefin 2025.

---

[77] Ymchwiliad traws-bwyllgor: Adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE
[78] Ymchwiliad Pwyllgor: Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru

# Atodiad 1 Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael yng Nghofnod y Trafodion. Mae'r holl dystiolaeth i'w gweld ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **19 Mehefin 2024** | **Vaughan Gething AS, Prif Weinidog Cymru**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Andrew Gwatkin, Cyfarwyddwr, Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach**<br>Llywodraeth Cymru |